**Cynllun Cwricwlwm ac Asesu Clwstwr Glantaf Hydref 2023**

Gweledigaeth ein partneriaeth:

Ein nod yw cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i fod yn

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Unigolion iach, hyderus
- Gyfranwyr mentrus, creadigol
- Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus

fydd yn barod i fyw bywyd llawn a chwarae rhan lawn yn eu cymuned ac yn y byd

Mae ysgolion clwstwr Glantaf yn cydweithio ar *Gwricwlwm i Gymru* gan ffocysu ar sicrhau dilyniant a chynnydd i ddisgyblion wrth iddynt dyfu a datblygu medrau o fewn ein ysgolion ac ar hyd eu taith dysgu. Mae'r cynlluniau cydweithio rhain wedi eu cynnwys o fewn Cynllun Gwella Clwstwr sydd yn darparu cynllun manwl o waith partneriaeth rhwng ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cynllunio strategol ysgol i ysgol ar ran penaethiaid y clwstwr a chynllunio gwella addysgeg o fewn fforwm dirprwyon, ynghyd â chefnogaeth a chyngor gan swyddogion Consortiwm CDC.

**Rhanddeiliaid**

Wrth gynllunio cwricwlwm a chyfleoedd i'n dysgwyr rydym yn ymrwymiedig i adlewyrchu cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol MDaPh o fewn profiadau addysgol disgyblion unigol. Mae hyn yn golygu pwyslais penodol ar gynefin a dalgylch ysgol unigol a hynny er mwyn sicrhau perthnasedd ac addasrwydd i'r disgybl unigol. Golyga hyn bod arweinwyr yn ymwybodol o farn rhanddeiliaid wrth gynllunio ac yn mynd ati'n strategol i rannu gwybodaeth ac ymgysylltu'n gadarnhaol gyda rhanddeiliaid wrth gynllunio profiadau heriol ac ysgogol i ddysgwyr.

**Camau Cynydd a Chydweithio**

Yn ystod y cyfnod cynllunio a datblygu cwricwlwm rydym wedi ffocysu yn benodol ar sicrhau dilyniant a chynydd ar gyfer disgyblion. Golyga hyn bod MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Mathemateg ynghyd â Celf Mynegiannol wedi mapio yn llwyddianus gamau cynydd cytun ar draws y continwwm sy'n cynorthwyo athrawon i ddeall a chael adnabyddiaeth aeddfed o gyrhaeddiad disgyblion unigol. Yn ystod 2023/24, mae pob MDaPh yn cydweithio ar draws y clwstwr i ffocysu ar ddealtwriaeth well o gamau cynnydd penodol o fewn y MDaPh. Rhan allweddol o'r gwaith yma yw hybu cyd-ddealltwriaeth o gyd-destun ysgolion unigol a drwy weithgorau datblygu MDaPh y clwstwr mae athrawon yn gallu meithrin adnabyddiaeth dda o gamau cynnydd perthnasol ar draws MDaPh o fewn ystod cyrhaeddiad cyffredin blynyddoedd.

**Gwerthuso a Diwygio**

Bydd y clwstwr yn gwerthuso cynlluniau gwella yn flynyddol gan sicrhau mireinio ac addasu yn dilyn gwerthusiadau. Elfen graidd o'r gwaith hwn fydd sicrhau adborth gan athrawon a chydlynyddion MDaPh ynghyd â dirprwyon y clwstwr fydd yn monitro cynnydd mewn cyfarfodydd yn rheolaidd. Wrth addasu a chyfeirio cylchoedd cytun HMS ar gyfer y dyfodol bydd y clwstwr yn ymateb i anghenion a chydgynllunio datblygiad y cwricwlwm yn amserol.

Penaethiaid Clwstwr Glantaf
Medi 2023